Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Children and Young People Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Leighton Andrews AC
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

11 Mai 2012

Annwyl Weinidog,

Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) – tystiolaeth ategol yn dilyn y cyfarfod ar 9 Mai 2012

Diolch am ddod i'r cyfarfod y bore yma i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc mewn perthynas â Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru). Diolch am gytuno i ddarparu'r wybodaeth a ganlyn:

- tabl yn nodi sut y mae'r rhesymau dros ymyrryd yn adran 2 o'r Bil yn wahanol i'r rhesymau presennol, gan gynnwys y sail resymegol dros y gwahaniaeth;

- nifer yr ysgolion a fethodd arolygiad gan Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru yn ystod y flwyddyn adrodd ddiwethaf, gan nodi'r awdurdodau lleol hynny a fyddai wedi medru cymryd camau o dan eu pwerau ymyrryd cyfredol;

- enghreifftiau o lywodraethwyr ychwanegol a benodwyd i gorff llywodraethu o dan y pwerau ymyrryd presennol; ac

- enghreifftiau lle mae'r Gweinidog wedi arfer ei bwerau i ymyrryd yn y broses o redeg gwasanaethau addysg awdurdodau lleol a'r holl gostau cysylltiedig (gan gynnwys gwasanaethau addysg Cyngor Sir Penfro a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent).

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8148
E-bost / Email: CYPCommittee@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

Christine Chapman AC
Cadeirydd